# Protocol aml-asiantaeth ar gyfer diogelu plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | 30/1/21 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 30/1/20 | 30/1/22 |
| F2 | Hydref 2022 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau) | 24/1/2023 | 24/1/2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| F3 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau) | 16/7/2024 | 16/7/2027 |

**Pwrpas y protocol canllawiau ymarfer**

Nod y protocol aml-asiantaeth hwn yw darparu dull rhanbarthol a chyson o ddiogelu plant a phobl ifanc ar draws rhanbarth CYSUR sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol. Mae'r protocol wedi'i anelu at annog asiantaethau a phartneriaid aml-asiantaeth i gydweithio i sicrhau bod gan CYSUR drosolwg cadarn o addysg ddewisol yn y cartref a sicrhau bod holl blant y rhanbarth yn cael eu diogelu'n deg.

Nod y protocol yw sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi o ba mor agored i niwed yw rhai disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a darparu proses systematig ar gyfer nodi'r rhai sy'n fwy agored i niwed ond gan gydnabod nad yw addysg yn y cartref ynddo'i hun yn bryder diogelu a derbyn bod yna leiafrif o blant – fel gydag unrhyw boblogaeth o ddisgyblion – y bydd pryderon diogelu yn eu cylch.

Y bwriad yw y bydd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer:

- hybu llesiant ein plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol
- cytuno ar ddull systematig o nodi'r plant hynny sy'n cael eu haddysgu yn y cartref
- cytuno ar ddull cyson o ddarparu cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc sy'n ystyried neu sydd eisoes yn addysgu eu plentyn/plant yn y cartref
- annog ymgysylltu cadarnhaol â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.
- sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r teulu y sgiliau angenrheidiol i nodi pryderon diogelu

**Cyd-destun cyfreithiol addysg ddewisol yn y cartref**

Yng Nghymru a Lloegr, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn cael addysg addas ac effeithlon. Er bod y cyfrifoldeb hwn fel arfer wedi'i ddirprwyo i ysgolion, mae rhai rhieni yn dewis ei arfer yn uniongyrchol drwy ddarparu addysg yn y cartref. Dylid nodi bod addysg yn y cartref yn gyfartal mewn statud ag addysg yn yr ysgol.

Addysg ddewisol yn y cartref yw'r term a ddefnyddir pan fo rhieni'n cymryd cyfrifoldeb personol am addysg eu plentyn.

Mae adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu:

"Bydd rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn peri iddo gael addysg llawnamser effeithlon sy'n addas—

(a) i'w oedran, ei allu a'i ddawn, a
(b) i unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo
**naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall**."

Ni ddiffinnir addysg "effeithlon" ac "addas" yn Neddf Addysg 1996 ond mae "effeithlon" wedi'i ddisgrifio'n fras mewn cyfraith achosion fel rhywbeth sy'n paratoi'r plentyn ar gyfer bywyd yn ei gymuned.

Mae oedran ysgol gorfodol yn dechrau ar ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed ac yn dod i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin y flwyddyn ysgol y mae'n un ar bymtheg oed ynddi.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref. Os yw plant wedi bod yn mynychu'r ysgol, yna mae'n ddyletswydd ar rieni i roi gwybod i'r pennaeth yn ysgrifenedig eu bod yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb personol am addysg eu plentyn a dylai'r ysgol wedyn roi gwybod i'r awdurdod lleol. Os yw plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol a bod rhieni'n dymuno addysgu yn y cartref, dylent ysgrifennu at yr ysgol gan nodi eu bod yn dymuno addysgu eu plentyn heblaw yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am ddymuniadau'r rhieni ond ni fydd yn tynnu enw'r plentyn oddi ar y gofrestr hyd nes y ceir cytundeb gan yr awdurdod lleol.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd o dan adran 175(1) o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu a hybu lles plant. Mae'r adran hon yn datgan:
*"Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i sicrhau bod y swyddogaethau a roddwyd iddo yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod addysg lleol yn cael eu harfer gyda'r bwriad o* ***ddiogelu a hybu lles*** *plant."*

Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i gefnogi plant a rhieni/gofalwyr plant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn a gyhoeddwyd o dan bwerau datganoledig yng Nghymru yn ategu deddfwriaeth sylfaenol y DU y cyfeirir ati uchod. Mae'r canllawiau yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer awdurdodau lleol a rhieni yng Nghymru o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u llywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Fe'u datblygwyd i sicrhau bod holl blant Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, yn cael eu hawliau yn unol â'r CCUHP.

**Hawliau plant**

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn rhoi hawl i blant fynegi eu barn ac i bwysau dyledus gael eu rhoi i'r safbwyntiau hynny, yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn rhoi awdurdod i blant dros rieni. Dylai awdurdodau lleol, drwy eu gwasanaethau sy'n cefnogi cyfranogiad plant, ystyried sut y gellir clywed lleisiau unigol a lleisiau cyfunol plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Mae gwefan Hawliau Plant Cymru www.llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru wedi'i chynllunio i helpu ymarferwyr, llunwyr polisi a rhanddeiliaid i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu persbectif hawliau plant yn eu gwaith.

**Diogelu plant sydd mewn perygl**

Dylid darllen y canllawiau rhanbarthol hyn ar y cyd â Chanllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref 2023 a'u croesgyfeirio â hwy. Mae Canllawiau 2023 yn nodi gofynion diogelu manwl a gofynion cymorth a monitro ehangach ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref mewn mwy o berygl o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin na phlant sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol ac nid yw penderfyniad rhiant i addysgu yn y cartref ynddo'i hun yn destun pryder ynghylch diogelwch a llesiant y plentyn. Fodd bynnag, yn yr un modd ag unrhyw blant ni waeth ble y cânt eu haddysgu, gall fod amgylchiadau sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn peri i ymarferwyr geisio rhagor o wybodaeth am blentyn.

Mae tudalennau 35 i 38 o Ganllawiau statudol Cymru 2023, yn amlinellu ystod o bwerau deddfwriaethol sydd ar gael i asiantaethau pan ystyrir y gallai plant fod mewn perygl o niwed. Dylai asiantaethau roi sylw dyledus i baragraffau 7.15 i 7.17 a'u dehongliad o'r pwerau sydd ar gael o dan adran 47 a 31 o Ddeddf Plant 1989 pe bai pryderon am les a llesiant plant yn codi.

*"Dylai awdurdodau lleol ymdrin â phob achos pan fo amheuaeth ynghylch addasrwydd addysg yn y cartref gan ddefnyddio eu pwerau yn Neddf Addysg 1996 (cyfeirer at adran 5), ond dylent hefyd fod yn barod, os yw'n ymddangos bod diffyg addysg addas yn debygol o amharu ar ddatblygiad plentyn, i arfer eu pwerau a'u dyletswyddau diogelu yn llawn er mwyn amddiffyn llesiant y plentyn, sy'n cynnwys addysg addas.*

*Wrth arfer pwerau diogelu, byddai awdurdod lleol fel arfer yn dechrau ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, ar y sail bod diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol plentyn yn gallu bodloni'r prawf 'achos rhesymol i amau' niwed sylweddol o dan y ddarpariaeth honno. Gall achos rhesymol gynnwys diffyg unrhyw wybodaeth sylweddol am addysg plentyn, felly os bodlonir y prawf 'os yw'n ymddangos' yn adran 437(1), yna fel arfer bydd achos rhesymol o ran adran 47. Gall yr ymholiadau hyn gynnwys cymryd camau i gael mynediad at y plentyn. Bydd canlyniad ymholiadau yn dilyn ymchwiliad adran 47 felly yn galluogi awdurdod lleol i benderfynu a ddylid cymryd camau <u>i amddiffyn lles y plentyn</u>.*

*Os bydd awdurdod lleol, yn dilyn ymchwiliad adran 47, yn dod i'r casgliad bod y trothwy niwed sylweddol wedi'i fodloni, ond bod rhieni'n methu ag unioni'r pryderon a nodwyd, efallai y bydd angen gwneud cais am orchymyn gofal. Mae methiant i ddarparu addysg yn gallu bodloni'r meini prawf trothwy ar gyfer 'niwed sylweddol' o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989."*

Ymhellach i hyn, mae tudalen 12 o'r canllawiau statudol yn nodi:

"*Dylai awdurdodau lleol ymdrin â phob achos pan fo amheuaeth ynghylch addasrwydd addysg yn y cartref gan ddefnyddio eu pwerau yn Neddf Addysg 1996. Dylent hefyd fod yn barod, os yw'n ymddangos bod diffyg addysg addas yn debygol o amharu ar ddatblygiad plentyn, i arfer eu pwerau a'u dyletswyddau diogelu yn llawn er mwyn amddiffyn llesiant y plentyn. Y prif amcan yn yr achosion hyn yw sicrhau bod datblygiad y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed sylweddol. Gweler adran 7 am ganllawiau pellach."*

### *Yr hyn a ystyrir yn addysg addas*

Amlinellir yr hyn a ystyrir yn addysg addas ac effeithlon ar dudalennau 15-24 o Ganllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref 2023.

*Mae paragraff 4.21 yn nodi:*

*"Er mwyn i awdurdod lleol fodloni ei hun ynghylch addasrwydd yr addysg a ddarperir gan y rhieni, dylai'r awdurdod lleol weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu ym mhob set unigol o amgylchiadau a oes angen iddo gwrdd â'r plentyn. Mewn rhai achosion, gall fod yn bosibl y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun ynghylch addasrwydd yr addysg ar sail y deunydd a ddarperir gan y rhiant/gwarcheidwad ar gais yr awdurdod lleol. Yn absenoldeb gweld y plentyn a chyfathrebu ag ef, bydd amheuon ynghylch a all yr awdurdod lleol asesu'n rhesymol addasrwydd yr addysg a gwybod a yw tystiolaeth o addasrwydd yr addysg a ddarperir gan y rhiant yn ymwneud â'r plentyn hwnnw. Er enghraifft, a ellir dweud yn rhesymol bod y dystiolaeth a ddarparwyd wedi'i chynhyrchu gan y plentyn hwnnw neu'n ymwneud â'r plentyn hwnnw. Gallai gweld y plentyn a chyfathrebu ag ef roi cyfle i'r awdurdod lleol ddeall yn well sut mae'r plentyn yn*

*dysgu a pha feysydd dysgu y mae ganddo ddiddordeb ynddynt. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar rieni a phlant cymwys Gillick i gyfarfod â'r awdurdod lleol ac maent yn rhydd i wrthod cyfarfod pe dymunant."*

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, y sefyllfa ddiofyn yw sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith y bwriedir iddynt hwyluso gweld plant wyneb yn wyneb a siarad a hwy yn uniongyrchol yn flynyddol.

**Protocol rhannu gwybodaeth ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn rhanbarth Gorllewin Cymru 2023:**

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol i ymyriadau cynnar er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys cymorth addysgol. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dioddef niwed oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod, a'u hatal rhag troseddu. Mae gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gyfrifoldeb unigol a chyfunol i ddarparu dyletswydd gofal iddynt.

**Y camau ar gyfer rhannu gwybodaeth ddiogelu:**

Bydd sefydliadau partner, bob amser, yn gweithio yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. Mae Protocol Rhannu Gwybodaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn esbonio'n fras sut y gellir rhannu gwybodaeth fel rhan o'r broses hon. Mae ymarferwyr yn aml yn bryderus am gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998 a gall hyn olygu eu bod yn awyddus i leihau'r risg wrth rannu gwybodaeth.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol yn nodi y gellir rhannu gwybodaeth ar ffurf **cyfathrebu cyn atgyfeirio**. Mae'r cam hwn o rannu gwybodaeth yn cydnabod y gall fod angen i weithwyr proffesiynol o sefydliadau partner gyfathrebu â'i gilydd ac, wrth wneud hynny, rannu gwybodaeth bersonol a sensitif er mwyn gwneud atgyfeiriad diogelu. Nid yw hyn mewn unrhyw fodd yn dileu nac yn disodli'r rhwymedigaeth statudol i atgyfeirio achosion i'r awdurdod lleol pryd bynnag y nodir pryder, ond mae'n cydnabod y gall fod angen i weithwyr proffesiynol gyfathrebu cyn hyn er mwyn cadarnhau neu goladu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud atgyfeiriad.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn esbonio'r amgylchiadau pryd y mae angen rhannu a chyfnewid gwybodaeth fel y gellir gwneud asesiad priodol i nodi pa mor agored i niwed yw rhywun, ei anghenion ac yn bwysicaf oll risgiau, er mwyn llywio camau gweithredu priodol.

Mae asiantaethau ac ymarferwyr o dan rwymedigaethau amrywiol i gynorthwyo a chydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn ceisio amddiffyn plant rhag niwed a diwallu eu hanghenion.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol yn datgan, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag **'Atal'**, y dylid nodi bod y term 'diogelu' yn cyfeirio at **amddiffyn** ac **atal yng nghyd-destun** cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn egluro bod gan weithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r ddyletswydd i ymateb i sefyllfaoedd pan fo plentyn neu oedolyn yn amlwg mewn perygl o niwed, ddyletswydd hefyd i gydweithio a rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn atal niwed o'r fath rhag digwydd neu waethygu. Bydd hyn yn aml yn cynnwys yr angen i rannu gwybodaeth bersonol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Mae Canllawiau Statudol Cymru ar gyfer Plant sy'n Derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi'r canlynol:
Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i arfer diogelu da. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill. Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd amserol ac effeithiol, gall y penderfyniadau a wneir fod yn rhai gwael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu sy'n darparu cyngor pellach.

Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl cyfrol 5 – ymdrin ag achosion unigol i'w hamddiffyn
Mae Plant mewn Perygl yn cynghori bod '*rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, o 25 Mai 2018 ymlaen Deddf Diogelu Data 2018 yr UE, a'r ddyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei ddefnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb gydsyniad pan fo gofyniad cyfreithiol neu pan fo'r ymarferydd o'r farn bod hynny er budd y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol hynny yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill.*'

**Gwybodaeth ddefnyddiol**:

Gellir darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r wybodaeth ganlynol:
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 5 –Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg:
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg:
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-6--ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-oedolion-syn-wynebu-risg_0.pdf

**Cydsyniad:**

Dylid gwneud ymdrech bob amser i gael cydsyniad gan deuluoedd cyn ymyrryd neu gwneud atgyfeiriad. Fodd bynnag, derbynnir y gall fod adegau pan na cheir cydsyniad a phan fo pryderon diogelu am blant yn parhau. Ni ddylai anallu i gael cydsyniad rhiant neu ofalwr/a/neu amharodrwydd rhiant neu ofalwr i'w roi atal unrhyw ymarferydd neu asiantaeth rhag gwneud atgyfeiriad ffurfiol i ofalwyr cymdeithasol os oes ganddynt bryderon am les y plentyn.

Mae Deddf Plant 1989 yn datgan y dylai pob asiantaeth gyhoeddus gydweithio i gyfnewid a rhannu gwybodaeth er lles ac er mwyn amddiffyn plant yn yr ardal.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir hefyd â'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac yn enwedig Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd, byddai angen i unrhyw weithgaredd rhannu gwybodaeth fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn unol ag un o'r nodau cyfreithlon a nodir yn yr Erthygl, ee diogelu hawliau pobl eraill.

**Nodi disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref mewn ardal awdurdod lleol:**

Mae Canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref 2023 yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cymryd camau rhagweithiol i nodi plant yn eu hardal nad ydynt yn hysbys i asiantaethau a/neu a all fod yn colli addysg.

*Mae paragraffau 3.1 i 3.3 ar dudalen 13 yn nodi:*

*"Mae'n debygol iawn y bydd plant a addysgir yn y cartref mewn ardal awdurdod lleol na fydd yr awdurdod lleol yn gwybod amdanynt. Bydd nifer o resymau am hyn, er enghraifft, efallai nad yw'r plentyn erioed wedi cael ei gofrestru mewn ysgol, neu fod teulu wedi symud i'r awdurdod lleol o ran arall o'r wlad.  O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i alluogi'r awdurdod i ganfod, hyd y gellir gwneud hynny, pwy yw'r plant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, ac nad ydynt yn cael addysg addas heblaw mewn ysgol. Dylai awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffyrdd o adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt, gan wneud popeth sy'n rhesymol ac yn briodol.  Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol fesurau cadarn ar waith i nodi'n gyflym pan fydd plentyn yn colli addysg, neu fod potensial bod hynny'n wir, a chymryd camau dilynol gan ddefnyddio systemau olrhain ac ymholi effeithiol i ddod o hyd iddynt. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg yn gymwys. Mae plant sy'n colli addysg yn gymwys."*

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, dylai pob awdurdod lleol geisio nodi, cyn belled ag y bo modd, y plant hynny yn eu hardal sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Mae'n haws cyflawni hyn os yw asiantaethau'n rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc ac yn alinio systemau sy'n hwyluso hyn. Ystyrir bod gwybodaeth ar draws asiantaethau yn hanfodol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael ei nodi.

Gellir cyflawni hyn drwy amrywiaeth o ddulliau:

- Drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cadw cronfa ddata/cofnod o blant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol yn eu hardal. Dylai'r gronfa ddata adlewyrchu gwybodaeth debyg i wybodaeth am ddisgybl ysgol brif ffrwd.
- Os oes gan blentyn gynllun datblygu unigol dylai'r awdurdod lleol neu awdurdod lleol arall ei drosglwyddo er mwyn sicrhau cysondeb o ran cymorth ac adnabyddiaeth o anghenion dysgu ychwanegol a'i ychwanegu at y gronfa ddata addysg ddewisol yn y cartref.
- Dylai'r awdurdod lleol wirio cofnodion genedigaethau yn erbyn derbyniadau ysgol er mwyn nodi'r plant hynny nad ydynt byth yn cofrestru mewn ysgol brif ffrwd.
- Defnyddio Protocol Rhannu Gwybodaeth Rhanbarthol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i gyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu i helpu i nodi plant nad ydynt efallai'n hysbys i'r awdurdod lleol.

- Cydweithrediad asiantaethau eraill sy'n dod yn ymwybodol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol.
- Sicrhau bod addysg ddewisol yn y cartref ar yr agenda mewn cyfarfodydd strategol sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol er mwyn olrhain a monitro tueddiadau/patrymau/themâu, hy cyfraddau uchel o ddadgofrestriadau o ysgolion penodol neu o ganlyniad i faterion megis presenoldeb ac ati.
- Cryfhau cysylltiadau ag awdurdodau lleol rhanbarthol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am deuluoedd sy'n symud ar draws ardaloedd yn gadarn.
- Dylai awdurdodau lleol adrodd i bwyllgorau craffu perthnasol ac aelodau etholedig mewn perthynas â materion addysg yn y cartref o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer y plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol yn yr ardal, gan gynnwys unrhyw dueddiadau a ffactorau sy'n cyfrannu at addysg yn y cartref.
- Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cael gwybodaeth a data chwarterol am blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a bydd yn monitro patrymau a thueddiadau allweddol ar draws y rhanbarth.

**Cefnogaeth a chyngor i rieni:**

Ers cyflwyno'r Canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref 2023 cytunwyd ar becyn cymorth ehangach, ac mae ar gael i bob awdurdod lleol i gefnogi plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref a'u teuluoedd. Disgwylir i awdurdodau lleol gynorthwyo rhieni sy'n addysgu yn y cartref, gan gydnabod y gall rhieni sy'n addysgu yn y cartref fabwysiadu ystod gyfoethog ac amrywiol o ddulliau addysg yn y cartref a defnyddio amrywiaeth o athroniaethau a dulliau. Dylai awdurdodau lleol, pan fo modd, hyrwyddo mynediad at gyfleoedd dysgu sydd ar gael i bob plentyn yn eu hardal. Dylai gwybodaeth glir fod ar gael a chael ei darparu i rieni, ynghyd â chyswllt enwebedig a all roi cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n ystyried addysgu eu plant yn y cartref yn ddewisol. Dylai adnoddau ymarferol sydd ar gael i deuluoedd gynnwys, er enghraifft, dudalen we bwrpasol, hwyluso mynediad at ddeunyddiau addysgol am bris gostyngol, mynediad at gyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol, gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau gyrfaoedd.

**Tynnu disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol heb ddefnyddio gwaharddiad parhaol**:

Yn y canllawiau nid anogir tynnu disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol heb ddefnyddio gwaharddiad parhaol ac nid yw'n cael ei ystyried yn arfer derbyniol. Ni ddylid annog rhieni i dynnu eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad neu erlyniad am fethu â sicrhau bod eu plentyn wedi mynychu'r ysgol neu i wella canlyniadau perfformiad ysgol. Mae'n bwysig felly bod penderfyniad rhieni i addysgu yn y cartref yn ddewis cadarnhaol ac nad yw'n cael ei ystyried yn opsiwn pan fydd plant wedi ymddieithrio o addysg cyn cael eu haddysgu yn y cartref.

Ochr yn ochr â'r gofynion cenedlaethol a amlinellir uchod ac yn ychwanegol atynt, yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru dylid bob amser anelu at ymyrryd yn gynnar a datrys gwrthdaro ar lefel ysgol cyn dadgofrestru wrth geisio datrys problemau gyda'r ysgol neu'r cwricwlwm. Gellir cyflawni hyn drwy ymyrryd yn gynnar ac atgyfeirio at rwydweithiau cymorth lleol megis gwasanaethau lles addysg, systemau cymorth bugeiliol mewn ysgolion, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu wasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

Bydd pob awdurdod lleol yn gwneud y canlynol:

- Darparu dogfennau cyngor a chanllawiau sy'n amlinellu cyfrifoldebau rhieni, rôl a dyletswyddau cyfreithiol yr awdurdod lleol, rhwydweithiau cymorth, sefydliadau a all gynorthwyo ac ati.
- Darparu pecyn gwybodaeth i rieni sy'n amlinellu'r cymorth a'r cyngor perthnasol sydd ar gael gan yr awdurdod lleol ac yn cynnwys gwasanaethau cymunedol lleol priodol, a allai gynnwys taflenni, rhifau ffôn ac ati.
- Sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyffredinol yn eu hardal megis Tîm o Amgylch y Teulu (Tîm Cefnogi Teuluoedd), gwasanaethau gyrfaoedd, y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol neu gyfleoedd gwirfoddoli.
- Sicrhau bod ganddo gynghorydd addysg ddewisol yn y cartref penodedig sy'n gyfarwydd ag ethos addysg yn y cartref ac sydd â sgiliau rhyngbersonol da. Yn ddelfrydol byddai gan gynghorydd addysg ddewisol yn y cartref gefndir addysgol.
- Sicrhau bod gan y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref y gallu i gynnal ymweliadau neu gyfarfodydd blynyddol neu ychwanegol gyda rhieni i gynnig cyngor a chymorth os oes angen.
- Cynnig cyswllt o fewn 28 diwrnod calendr neu lai ar ôl dadgofrestru o'r ysgol. Gallai hyn helpu i ddatrys unrhyw broblemau a allai fod wedi codi yn yr ysgol a/neu fe allai gynnig y cyfle i drafod unrhyw ddewisiadau eraill. Os nad yw'r cyswllt yn digwydd wyneb yn wyneb, dylid dilyn hyn gyda'r cynnig o ymweliad wyneb-yn-wyneb o fewn chwech wythnos.
- Sicrhau bod eu cyfathrebu lleol i rieni ynghylch addysgu yn y cartref yn cynnwys gwahoddiad i blentyn gymryd rhan mewn unrhyw ymweliad/cyfarfod a gynhelir ac yn amlinellu pam y gall hyn fod o gymorth i'r awdurdod lleol ac i'r teulu/plentyn. Pan na roddir cydsyniad gan y rhiant / gofalwr, dylai'r awdurdodau lleol gofnodi hynny ynghyd â safbwyntiau'r plentyn – er enghraifft, pan fo rhiant yn rhoi cydsyniad ond na fo'r plentyn yn fodlon cymryd rhan yn y cyfarfod / ymweliad.
- Ceisio cael cydsyniad gan rieni i rannu neu geisio gwybodaeth gyda/gan asiantaethau eraill os oes angen, gan fod yn onest gyda theuluoedd ynghylch pam y gallem fod eisiau ceisio gwybodaeth gydag asiantaethau eraill a pha wybodaeth gymesur y gallai fod ei hangen arnom.
- Cynnig gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol fel yr amlinellir ac a nodir mewn canllawiau statudol.
- Sicrhau bod gan y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref fynediad goruchwylio priodol i drafod materion diogelu a allai godi neu i adrodd yn ôl os oes ganddo bryderon.
- Cynnig cyfleoedd neu weithdai rhieni os ydynt ar gael a sicrhau y rhoddir gwybod amdanynt i bob rhiant sy'n addysgu yn y cartref.

**Sgiliau diogelu:**

Mae diogelu yn fusnes/gyfrifoldeb i bawb, ond dylai aelodau penodol o'r staff rheng flaen gael eu hyfforddi i lefel uwch o ddiogelu. Dylai hyn gynnwys y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref.

Dylai'r person hwn:

- Fod wedi cael hyfforddiant diogelu sy'n gyson â grŵp staff C fel isafswm ar y Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol.
- Fod wedi cael profiad o weithio mewn cyd-destun diogelu

- Deall ac adnabod y rhwystrau sy'n atal plant a'u teuluoedd rhag ymgysylltu a/neu beidio â chydymffurfio.
- Meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a hyfforddiant mewn perthynas â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a allai wneud plentyn yn fwy agored i niwed.
- Deall sut i herio gweithwyr proffesiynol eraill a sut i uwchgyfeirio pryderon yn briodol.
- Derbyn goruchwyliaeth gan weithiwr proffesiynol priodol i drafod pryderon diogelu sy’n deillio o ymweliadau neu gyfarfodydd. Dylai hyn ddigwydd o leiaf unwaith bob tri mis.
- Deall sut i gyfrannu'n briodol at asesu rhyngasiantaethol drwy gasglu a rhannu gwybodaeth yn briodol.
- Gwybod pryd a sut i ymgynghori ag arweinydd diogelu neu swyddog diogelu dynodedig
- Meddu ar ddealltwriaeth glir o sut y gall pobl gael mynediad at gymorth ar draws pob lefel angen yn unol â throthwyon rhanbarthol ‘Cymorth Cywir ar yr Amser Cywir’ a dogfen cymhwysedd ar gyfer cymorth.
- Gallu gweithio ar y cyd ac yn effeithiol gyda phartneriaid aml-asiantaeth.

**Nodi pryderon:**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi bod yn weithredol yng Nghymru ers mis Ebrill 2016 ac, ochr yn ochr â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae’n darparu fframwaith cyfreithiol cryf ar gyfer diogelu plant a all fod mewn perygl o niwed ac y gall fod angen gwneud ymholiadau pellach amdanynt o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, fel yr amlinellir ar dudalennau 3 a 4 uchod.

Gall y broses o nodi plant y mae gan weithiwr proffesiynol bryderon yn eu cylch amrywio. At ddibenion y protocol hwn dylid ystyried nodi plant ar ôl deuddeg mis nad ydynt wedi dod i gysylltiad â gweithiwr proffesiynol o unrhyw asiantaeth arall sydd â dyletswydd i ddiogelu plant yn unol ag adran 28(2) o Ddeddf Plant 2004. Mae angen ymagwedd aml-asiantaeth gref os yw plant a phobl ifanc i gael eu diogelu'n effeithiol.

Mae’r canlynol yn mapio’r dull ar gyfer cyflawni hyn:

**Yr awdurdod lleol:**

- Dylai’r adran Addysg leol gadw cronfa ddata o'r holl blant y mae’n hysbys eu bod yn cael eu haddysgu gartref yn ei hardal.
- Dylai’r adran Addysg leol ddefnyddio'r wybodaeth o’r gronfa ddata i nodi'r plant hynny na chafodd unrhyw gysylltiad â nhw o fewn y deuddeg mis calendr blaenorol.
- Ar ôl nodi'r plant hynny nad oes unrhyw gysylltiad wedi'i wneud â nhw neu nad ydynt wedi cael eu gweld, gofynnir i'r Gwasanaeth Lles Addysg neu wasanaeth cyfatebol i wneud gwiriad lles.
- Dylai’r Gwasanaeth Lles Addysg ddilyn y broses Plant Ar Goll Mewn Addysg gan gynnwys cais am wybodaeth gan y gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd a’r heddlu. Gallai'r wybodaeth gymesur hon gynnwys:
    - A yw’r plentyn yn hysbys i’r gwasanaethau plant ar hyn o bryd neu a yw wedi dod i’w sylw yn y ddiweddar?
    - A yw’r plentyn wedi cael ei weld yn ddiweddar mewn unrhyw apwyntiad iechyd/meddyg teulu?
    - A yw’r cyfeiriad neu’r teulu yn hysbys i’r heddlu am unrhyw reswm?

- A oes gan unrhyw un o'r asiantaethau hyn unrhyw bryderon lefel isel/pryderon sy'n dod i'r amlwg?
- A all yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod y plentyn yn derbyn addysg addas fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref 2023, neu a oes amheuon ynghylch hyn? Os nad yw, dylid cyfeirio hyn at y gwasanaethau gofal cymdeithasol i ystyried ymhellach a yw hyn yn amharu ar ddatblygiad y plentyn.

**Y gwasanaethau cymdeithasol i blant:**

Ar ôl cael cais am wybodaeth gan eu hadran Addysg berthnasol am y plant hynny sy'n cael eu haddysgu gartref yn eu hardal nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad ag addysg:

- Dylai groesgyfeirio'r rhestr yn erbyn eu cofnodion eu hunain i ganfod pa rai o'r plant hynny y mae gweithiwr proffesiynol o'u hadran wedi'u gweld yn ystod y deuddeg mis calendr blaenorol.
- Dylai ganfod a yw'r plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd neu a yw wedi dod i'w sylw yn ddiweddar neu a oes unrhyw bryderon lefel isel/pryderon sy'n dod i'r amlwg
- Dylai ddychwelyd yr wybodaeth hon i'r adran Addysg er ei sylw.
- Os daw'r awdurdod lleol i'r casgliad na ellir ei fodloni bod plentyn yn cael addysg addas, dylid ystyried a allai hyn fod yn amharu ar ddatblygiad plentyn ac a ddylid defnyddio pwerau diogelu statudol fel yr amlinellir uchod ar dudalennau 3 a 4.

**Y gweithiwr iechyd proffesiynol enwebedig:**

Ar ôl cael cais am wybodaeth gan yr adran Addysg yn ei ardal ynghylch plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref nad yw wedi cael ei weld gan weithiwr proffesiynol o'r awdurdod lleol na rhywun o'r gwasanaethau cymdeithasol i blant;
Dylai benderfynu a welwyd y plentyn yn ddiweddar mewn unrhyw apwyntiad iechyd/meddyg teulu. Dylai roi gwybod i'r adran Addysg berthnasol am ganlyniad yr wybodaeth hon.

**Yr heddlu:**

Ar ôl cael gwybodaeth gan adran Addysg leol yn nodi plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref nad yw wedi'i weld gan weithiwr proffesiynol o'r awdurdod lleol na rhywun o'r gwasanaethau cymdeithasol plant;

- dylid croesgyfeirio'r wybodaeth hon yn erbyn systemau'r heddlu i ganfod a ydynt wedi cael cyswllt â'r plentyn neu'r teulu hwnnw sy'n bodloni eu rhwymedigaeth i ddiogelu llesiant y plentyn hwnnw, neu
- canfod a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am y cyfeiriad neu unrhyw unigolion a allai fod yn byw yn y cyfeiriad a allai beri pryder.
- Dylai roi gwybod i'r adran Addysg berthnasol am ganlyniad yr wybodaeth hon.

**Cynllunio diogelwch:**

Dylai'r adran Addysg, ar ôl cadarnhau'r plant hynny sy'n cael eu haddysgu gartref yn eu hardal nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth yn ystod y deuddeg mis blaenorol, drafod y disgyblion hyn ymhellach o fewn ei hasiantaeth ei hun er mwyn ystyried a oes angen ymyrryd ymhellach, hy gorchymyn mynychu'r ysgol, trafodaeth â'r gwasanaeth lles addysg, ac efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried cael

cyfarfod panel adrannol i drafod pryderon. Gall hyn gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth ieuenctid, y gwasanaeth seicoleg addysg, y gwasanaeth lles addysg, cynrychiolydd pobl nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant neu'r gwasanaethau allgymorth sydd gennych yn lleol i drafod a oes unrhyw gynigion pellach gan wasanaethau cymorth a allai ymgysylltu â'r teulu.

Os codir pryderon am les y plentyn, gan gynnwys anallu i ddod i'r casgliad yn ystod yr ymholiadau, bod plentyn yn derbyn addysg addas ac y gallai hyn fod yn amharu ar ei ddatblygiad, a/neu os daw pryderon diogelu i'r amlwg, dylid ystyried cael trafodaeth bellach â'r tîm Gwasanaethau Plant ar y rheng flaen neu gyflwyno Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol i'w hadran Gwasanaethau Plant priodol i ystyried y trothwy.